**HS5(B)**

# Canllaw ar gyfer llenwi'r cofnod Ymchwiliad i Digwyddiad/Damwain a Niwed HS5 (A)

**Cyflwyniad**

Bwriad y nodiadau yma yw helpu i lenwi'r cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed' - HS5(A)

Mae'r HS5(A) yn galluogi gweithiwr i roi gwybod am bob math o digwyddiadau/damweiniau, o'r anaf mwyaf mân (neu osgoi un o drwch blewyn), i anaf difrifol, damwain sy'n achosi absenoldeb, neu ddigwyddiad peryglus.

Drwy gofnodi'n dda ac ymchwilio systematig, bydd y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol, nodi proffiliau risg, arsylwi ar dueddiadau mewn anafiadau a darparu sail ar gyfer cynllunio diogelwch.

**Sut i lenwi'r Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed Ffurflen HS5(A)**

**Cyfadran/Gwasanaeth:**

Cofnodwch enw'r grŵp / maes gwasanaeth lle mae'r person sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad/damwain yn gweithio, e.e. Prif Weithredwr / Adnoddau Dynol.

**Adeilad/Safle**

Cofnodwch enw a chyfeiriad llawn yr adeilad (a'r safle, lle bo hynny'n berthnasol) lle mae'r person sy'n rhan o'r digwyddiad/damwain yn gweithio, e.e. enw a chyfeiriad llawn yr ysgol, enw a chyfeiriad llawn y cartref i bobl hŷn, enw bloc ar safle aml-swyddfa ac enw a chyfeiriad llawn y safle, ac ati. (cofnodwch y cod post lle mae'n hysbys).

## Rhan A – I'w llenwi gan yr unigolyn sydd ynglŷn â'r digwyddiad neu'r person enwebedig

Gan mai cofnod cyfreithiol y Cyngor yw'r adran yma, bydd angen copïau arnoch chi ar gyfer y canlynol:-

(i) yr unigolyn;
(ii) ffeil bersonol yr unigolyn, adran Adnoddau Dynol;
(iii) ffeil ddamweiniau'r adran;

Bwriad y rhan yma hefyd yw cadw hawl gweithiwr neu berson arall i gyflwyno adroddiad am ddigwyddiad/damwain neu anaf. Gall yr adran sy'n ymwneud â'r digwyddiad/damwain gael ei llenwi gan yr unigolyn dan sylw neu berson sydd wedi'i enwebu i lenwi'r adran yma (e.e. gan y person sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad/damwain neu gan reolwr), neu'r person sy'n derbyn yr adroddiad, e.e. dros y ffôn.

1. **Enw a Chyfeiriad y Cartref** Cofnodwch enw a chyfeiriad llawn y person a fu'n rhan o'r digwyddiad/damwain, gan gynnwys cod post lle mae'n hysbys (**nid** manylion y person sy'n llenwi'r ffurflen oni bai fod y person gafodd y ddamwain sy'n llenwi'r ffurflen. Mae'r rhan yma'n cael ei defnyddio i gofnodi rhif staff (os gweithiwr yw e), rhif ffôn y gwaith (os yw hynny'n berthnasol) a rhifau ffôn y person hwnnw.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

2. **Oedran** Cofnodwch oedran y person a fu'n rhan o'r digwyddiad/damwain ar ei ben-blwydd mwyaf diweddar.

3. **Rhyw** Cofnodwch ryw'r person sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad/damwain, fel y'i neilltuwyd adeg ei eni, hynny yw, gwryw neu fenyw (os oes angen rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ddamwain o dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus, rhaid i Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor lenwi'r rhan yma).

4. **Galwedigaeth neu Statws** Cofnodwch alwedigaeth neu statws yr unigolyn sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad/damwain, er enghraifft, athro, disgybl, myfyriwr, cynhaliwr 'cymorth gartref', preswylydd, ffitiwr, mecanig, aelod o'r cyhoedd, cleient, ac ati.

5. **Adran neu Ardal Waith** Cofnodwch adran neu ardal waith yr adeilad/safle (gweler uchod) lle mae'r person sy'n rhan o'r digwyddiad/damwain yn gweithio fel arfer, e.e. Adran Dylunio a Thechnoleg, Carfan Iechyd a Diogelwch, gweithdy, ac ati.

6. **Dyddiad ac Amser y Digwyddiad** Cofnodwch ddyddiad ac amser y digwyddiad/damwain, e.e. 26.05.22 – 14.30.

7. **Dyddiad ac Amser Rhoi Gwybod** Cofnodwch y dyddiad a'r amser pan roddwyd gwybod am y digwyddiad, e.e. 27.05.22 – 09.00.

   **Nodwch:** Dylech chi ddefnyddio'r system cloc 24 awr wrth gofnodi'r amser.

8. **Disgrifiad o'r Digwyddiad/Damwain** Cofnodwch y digwyddiad / y ddamwain yng ngeiriau'r unigolyn ei hunan. Mae'r gweithiwr dan sylw â hawl gyfreithiol i ddisgrifio'r digwyddiad/damwain fel y gwelodd ef/hi (Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975). Dydy'r rhan yma ddim yn cael ei defnyddio i gofnodi ymchwiliad.

9. **Union Leoliad y Digwyddiad/Damwain** Cofnodwch yr union leoliad lle digwyddodd y digwyddiad/damwain, e.e. yn ystafell ddosbarth 5 ger y ffenestr (gan roi enw llawn a chyfeiriad yr ysgol), yn ystafell fyw cartref y cleient (gan roi enw a chyfeiriad llawn y cleient), yn y cloddiad y tu allan i Rif 26 (gan roi enw'r stryd a'r pentref), ac ati. (cofnodwch y cod post lle mae'n hysbys).

10. **Enw a Chyfeiriad unrhyw Dyst** Cofnodwch enw a chyfeiriad unrhyw berson neu bersonau a welodd y digwyddiad/damwain, neu a all ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag achos neu achosion y digwyddiad/damwain. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n argymell y dylid cymryd datganiadau anffurfiol gan yr unigolion hynny sydd wedi'u henwi.

11. **Manylion yr anafiadau (os oes rhai) - Byddwch yn fanwl** Lle mae anaf wedi digwydd, cofnodwch y math o anaf, a rhan y corff a gafodd ei heffeithio, e.e. pen-glin chwith wedi'i chleisio, briw ar fys cyntaf y llaw chwith, ewin wedi'i hollti ar fys mawr y droed dde, llwch yn y llygad chwith. Nodyn: Dydy 'wedi brifo'i gefn' neu 'ergyd i'r pen' ddim yn ddigon manwl.

    Ar rai achlysuron, fydd manylion yr anaf ddim yn hysbys hyd nes y bydd cyngor meddygol yn cael ei ddarparu. Ar yr achlysuron yma, gall yr wybodaeth gael ei hychwanegu yn ddiweddarach.

12. **Manylion y Cymorth Cyntaf a phwy roddodd y cymorth** Cofnodwch y driniaeth a ddarparodd y swyddog cymorth cyntaf cymwys (lle y bo'n berthnasol), e.e. cafodd y clwyfau eu harchwilio a'u glanhau; cafodd bys cyntaf y llaw dde ei rwymo, ac ati.

Mae’r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

13. **Nodwch y pellter os yw'r unigolyn wedi cwympo o uchder** Gyda digwyddiadau/damweiniau lle mae person wedi cwympo o lefel sy'n uwch na'r llawr, cofnodwch yr uchder mae'r person wedi cwympo ohono. Dylech chi fesur o bwynt cyswllt y corff, h.y. y traed os oedd y person yn sefyll neu'r pengliniau os oedd yn penlinio, i lefel y llawr lle glaniodd y person.

14. **Pwy gafodd wybod am y digwyddiad?** Cofnodwch swydd neu statws y person a gafodd wybod am y ddamwain, e.e. goruchwyliwr, rheolwr llinell.

15. **Llofnod y sawl sydd wedi cael niwed (neu berson enwebedig):** Dylai'r person yma roi ei lofnod yn yr adran yma.

16. **Enw'r sawl sy'n cofnodi'r manylion:** Dylai'r person yma nodi ei enw (print bras) yn yr adran yma (yn aml bydd hwn yr un enw ag sydd wedi'i roi adran 15).

## Rhan B – Adroddiad y Rheolwr/Goruchwyliwr

Mae'r rhan yma'n galluogi'r Cyngor i fodloni ei ddyletswydd statudol i ymchwilio i ddigwyddiadau/damweiniau sy'n cael eu hadrodd, a chanfod y rhesymau.

Bydd adnabod gweithredoedd neu amodau anniogel yn galluogi rheolwyr i gymryd camau adferol priodol i'w hatal rhag digwydd eto. Os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â damwain adroddadwy, cyfeiriwch at Bolisi HS5 y Cyngor (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) a'i Ganllaw Rhoi Gwybod am Ddamweiniau.

17. **Adroddiad ymchwiliad y Rheolwr/Goruchwyliwr** Cofnodwch fanylion yr ymchwiliad i’r digwyddiad/damwain, gan ddisgrifio’r hyn a ddigwyddodd a sut ac, yn achos damwain, yr hyn yr oedd y person anafedig yn ei wneud ar y pryd, unrhyw ffactorau cyfrannol y gallech chi fod yn effro iddyn nhw, gan gynnwys unrhyw offer diffygiol neu ardaloedd diffygiol ar y safle, a oedd ef/hi wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer y gwaith sy’n cael ei wneud, ac ati. Yn achos disgybl yn yr ysgol a ddylai fod dan oruchwyliaeth, a oedd lefel yr oruchwyliaeth yn ddigonol ai peidio. Yn achos aelodau’r cyhoedd, gan gynnwys disgyblion yn yr ysgol, a gawson nhw eu cludo’n uniongyrchol o leoliad y ddamwain i’r ysbyty i gael triniaeth ai peidio. Mae modd parhau'r rhan yma ar ddalen arall, a lle bo'n briodol, mae modd cynnwys darlun bras neu fanwl neu ffotograffau. Os oes angen parhau ar ddalen ar wahân, nodwch hynny yn yr adran yma.

18. **Camau a gymerwyd i atal hyn rhag digwydd eto (Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen)** Cofnodwch y camau a gymerwyd yn seiliedig ar achosion y ddamwain a nodwyd yn ystod yr ymchwiliad. Os oes angen parhau â disgrifiad o'r camau a gymerwyd ar ddalen ar wahân, nodwch hynny yn yr adran yma.

19. **Pwy gymerodd y camau** Cofnodwch enw'r person sy'n gyfrifol am sicrhau bod y camau unioni a nodwyd yn Eitem 18 yn cael eu cynnal.

20. **Oedd y digwyddiad yn ymwneud â pheiriannau? Ticiwch y blwch.** Ticiwch y blychau priodol i gofnodi a oedd peiriant ynglŷn â'r digwyddiad/damwain.

21. **Os oedd, nodwch enw'r peiriant a'r math o beiriant.** Os rhoddwyd ateb cadarnhaol – dylid cofnodi enw’r peiriant a’r math o beiriant yma, e.e. trimiwr perthi tanwydd petrol, gan roi enw’r gwneuthurwr, y model a’r rhif cyfresol.

22. **Oedd y peiriant yn symud?** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a oedd y peiriant yn symud ar adeg y digwyddiad/damwain.

23. **Gafodd cyfarpar diogelu addas ei roi?** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a gafodd cyfarpar diogelu ei roi i'r person a gafodd ei anafu.

Mae’r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

24. **Os do, rhestrwch y cyfarpar a nodi a ddefnyddiwyd ef ar adeg y ddamwain** Os ticiwyd y blwch ‘Do’, dylid cofnodi manylion y cyfarpar diogelu yma, e.e. esgidiau diogelwch, menig, gogls, helmedau diogelwch, ac ati.

(Mae diffiniad llawn o Gyfarpar Diogelu Personol ym mholisi HS2 y Cyngor – Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol).

25. **Beth wnaeth y sawl gafodd niwed?** Mae hyn yn ymwneud â'r hyn a ddigwyddodd i'r person a anafwyd, yn syth ar ôl y digwyddiad. Atebwch yn briodol drwy roi llinell trwy 'Do' neu 'Naddo'.

26. **Oedd y gwaith wedi cael ei awdurdodi?** Dylid ticio'r blwch priodol i gofnodi a gafodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud ei awdurdodi ai peidio.

27. **Nifer y diwrnodau a gollwyd** Cofnodwch nifer y dyddiau a gollwyd o ganlyniad i'r digwyddiad/damwain.

Ar rai achlysuron, fydd yr wybodaeth yma ddim yn hysbys tan yn ddiweddarach.

28(a) **Oriau gwaith arferol:** Cofnodwch yr oriau y byddai disgwyl i'r person weithio ar ddiwrnod y digwyddiad/damwain.

28(b) **Union amser stopiodd y sawl gafodd niwed weithio:** Cofnodwch union amser y gadawodd y person y gwaith ar ôl y digwyddiad/damwain.

29. **Swyddog Ymchwilio (Enw):** Dylai'r person sy'n ymchwilio i'r digwyddiad/damwain lofnodi'i enw yn y rhan yma. Rhaid cofnodi'r dyddiad y mae'r enw yn cael ei nodi hefyd.

30. **Rheolwr/Goruchwyliwr (Enw):** Rhaid nodi enw rheolwr/goruchwyliwr y person a fu’n gysylltiedig â’r digwyddiad/damwain yn yr adran yma. Rhaid cofnodi'r dyddiad y mae'r enw yn cael ei nodi hefyd.

## Adran C – Ar gyfer defnydd swyddfa yn unig:

Mae'r adran yma ar gyfer defnydd yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb am gynnal trefniadau'r Cyngor ar gyfer cofnodi digwyddiadau/damweiniau, a sicrhau bod yr asiantaethau allanol (e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – AGID) wedi eu hysbysu, hynny yw, Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor, neu'r swyddogion sy'n darparu cymorth gweinyddol i'r garfan honno.

Dylid anfon ffurflenni HS5(A) wedi’u llenwi at Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor:

CarfanIechydaDiogelwch@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Mae’r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English